**Julie James AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**
**Deputy Minister for Skills and Technology**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your
Ein cyf/Our ref SF/JJ/2664/15

William Graham AM
Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

08 Hydref 2015

Annwyl William,

Yr wyf yn ysgrifennu atoch mewn perthynas â'ch gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor Menter a Busnes ar 21 Hydref 2015 i roi tystiolaeth ar y rhaglen Erasmus+ a'r elfen sgiliau yn Horizon 2020.

Rwyf yn amgáu'r dystiolaeth ysgrifenedig yn unol â chais y pwyllgor.

Edrychaf ymlaen at gyflwyno tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor

Yr eiddoch yn gywir,

Julie James

**Julie James AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Deputy Minister for Skills and Technology

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Julie.James@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**PAPUR AR GYFER Y PWYLLGOR MENTER A BUSNES**
**Erasmus+ a Horizon 2020 yng NGHYMRU**

**Rhagair**

1. Pwrpas y papur hwn yw cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Menter a Busnes ynghylch Erasmus+ a'r agweddau ar raglenni Horizon 2020 yng Nghymru sy'n ymwneud â Sgiliau.

2. Rydym yn canolbwyntio ar helpu sefydliadau i wella eu hymgysylltiad â'r rhaglenni ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf ar ymchwiliad y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2014 i gyfleoedd cyllido'r UE.

3. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod Cymru'n elwa ar y rhaglenni hyn i roi hwb i sgiliau cyflogadwyedd ac i gefnogi moderneiddio addysg, hyfforddiant a gwaith ieuenctid.

**Y Cefndir**

4. Cynigiodd adroddiad y Pwyllgor ar gyfleoedd ariannu'r UE ym mis Gorffennaf 2014 nifer o argymhellion ynglŷn â rhaglen Erasmus+ a derbyniodd Llywodraeth Cymru'r rhan fwyaf ohonynt. Mae'r wybodaeth isod yn rhoi mwy o fanylion ynghylch rhaglen Erasmus+ a'r datblygiadau hyd yn hyn.

5. Rhaglen Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ymchwil ac arloesi yw Horizon 2020. Mae'n deillio o gyfuniad o'r rhaglenni Ewrop 2020 ac Undeb Arloesi. Mae'n olynydd i'r 7fed Rhaglen Fframwaith, gan ddarparu cymorth buddsoddi o ran ymchwil ac arloesi. Mae'r wybodaeth isod hefyd yn nodi hynt cychwynnol datblygiad y rhaglenni a sut y byddant efallai'n gallu dylanwadu ar yr agenda sgiliau.

**ERASMUS+ 2014-2020**

6. Erasmus+ 2014-2020 yw rhaglen yr UE ar gyfer addysg, hyfforddiant, ieuenctid a chwaraeon. Cychwynnodd Erasmus+ ar 1 Ionawr 2014, gan ddisodli a symleiddio rhaglenni ariannu blaenorol yr oedd y Comisiwn Ewropeaidd yn eu rhedeg ym meysydd addysg, hyfforddiant, ieuenctid a maes newydd chwaraeon. Roedd y rhain yn cynnwys y Rhaglen Dysgu Gydol Oes (Erasmus, Comenius, Leonardo, Grundtvig a Transversal), Ieuenctid Ar Waith a rhaglenni rhyngwladol eraill yn cynnwys Jean Monnet ac Erasmus Mundus.

7. Amcan Erasmus+ yw gwella sgiliau a chyflogadwyedd yn ogystal â moderneiddio addysg, hyfforddiant a gwaith ieuenctid ar draws Ewrop. Mae ganddo gyllideb o tua €14.7 biliwn (sydd gyfwerth â thua £10.6 biliwn yn ôl y cyfraddau cyfnewid presennol) ar draws Ewrop. Yn ystod y saith mlynedd nesaf bydd yn darparu cyfleoedd i dros 4 miliwn o bobl Ewrop i astudio, hyfforddi neu gael profiad neu wirfoddoli mewn gwlad dramor. Bydd hefyd yn cefnogi partneriaethau trawswladol rhwng sefydliadau addysg, hyfforddi ac ieuenctid, yn ogystal â chefnogi prosiectau chwaraeon llawr gwlad. Mae 33 o wledydd ledled Ewrop yn cymryd rhan.

8. Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau yw'r Awdurdod Cenedlaethol (NAU), sy'n gyfrifol am fonitro a goruchwylio gwaith yr Asiantaeth Genedlaethol (NA) o gyflawni'r rhaglen yn y DU. Y British Council mewn partneriaeth ag Ecorys Ltd yw'r Asiantaeth Genedlaethol, a nhw yw'r rheolwyr prosiect ar gyfer rhan

ddatganoledig y rhaglen gydol ei gylch bywyd drwyddo draw. Maent hefyd yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid sydd ynghlwm â'r rhaglen, ac am hyrwyddo camau canoledig, yn y DU.

9. Bydd y bartneriaeth yn darparu cefnogaeth barhaus i Lywodraeth y DU o ran rheoli, gweinyddu a monitro'r rhaglen o ddydd i ddydd. Maent hefyd yn trefnu grwpiau cynghori o wahanol wledydd y DU i Erasmus+ bob hanner blwyddyn. Un o brif amcanion y grwpiau hyn yw hyrwyddo'r rhaglen i gynulleidfa eang.

10. Y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ariannu Erasmus+, ac mae dyraniadau bras anffurfiol yn awgrymu bod Erasmus+ yn werth amcangyfrif o £696 miliwn (€940 miliwn) i'r DU. Bydd y gyllideb flynyddol (a rhan y DU o'r gyllideb honno) yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall tan 2020.

11. Yn 2014 cafodd y DU tua €112.7 miliwn o gyllideb Erasmus+; € 4.4 miliwn o'r camau canoledig a reolir gan y Comisiwn a €108.3m o'r gyllideb ddatganoledig sy'n cael ei rhedeg gan y DU. Mae canlyniadau dros dro'n dangos bod 5.85% o holl gyllideb ganoledig yr UE wedi'i ddyrannu i 22 prosiect yn y DU, ac roedd yr Asiantaeth Genedlaethol wedi dyrannu 96% allan o gyfanswm cyllideb ddatganoledig y DU o €115 miliwn i 975 o brosiectau.

12. Mae tri Phrif Gam y rhaglen yn canolbwyntio ar symudedd dysgu, cydweithredu ar gyfer arloesi ac arfer da, a chefnogi diwygio polisïau. Mae elfen chwaraeon y rhaglen yn cefnogi partneriaethau cydweithredol a digwyddiadau chwaraeon dielw, gan gynnwys Wythnos Chwaraeon Ewropeaidd. Daw'r Rhaglen ag is-raglenni o'r fframwaith UE blaenorol at ei gilydd (gyda mwy o arian) yn y meysydd canlynol: addysg uwch (Erasmus), graddau meistr cyd-anrhydedd a phartneriaethau â sefydliadau y tu allan i Ewrop (Erasmus Mundus), ysgolion (Comenius), addysg oedolion (Grundtvig), addysg a hyfforddiant galwedigaethol (Leonardo), ieuenctid, chwaraeon, ac addysgu ac ymchwil yn astudiaethau'r Undeb Ewropeaidd (Jean Monnet).

13. Mae gweithgareddau a gefnogir drwy raglen Erasmus+ yn cael eu cefnogi o dan sawl "Cam Gweithredu". Mae pob un o'r "Camau Gweithredu" hyn yn cynnwys camau canoledig sy'n cael eu rheoli ar lefel Ewropeaidd gan yr Asiantaeth Weithredol Addysg, Clyweledol a Diwylliant (EACEA) ynghyd â chamau datganoledig sy'n cael eu rheoli gan Asiantaethau Cenedlaethol ym mhob gwlad sy'n cymryd rhan. Dyma'r camau gweithredu hynny:

- Cam Gweithredu Allweddol 1: Symudedd Unigolion
  Symudedd dysgwyr a staff (cam gweithredu datganoledig).
  Graddau Meistr Cydanrhydedd Erasmus Mundus (cam gweithredu canoledig).
  Benthyciadau Graddau Meistr Erasmus+ (cam gweithredu canoledig).

- Cam Gweithredu Allweddol 2: Cydweithredu er mwyn arloesi a rhannu arfer da.
  Partneriaethau Strategol (cam gweithredu datganoledig).
  Cynghreiriau gwybodaeth (cam gweithredu canoledig).
  Cynghreiriau sgiliau sectorau (cam gweithredu canoledig).

Meithrin gallu (cam gweithredu canoledig).
Platfformau cefnogi TGCh (cam gweithredu canoledig).

- Cam Gweithredu Allweddol 3: Cefnogi diwygio polisïau.
  Cyfarfodydd deialog wedi'u strwythuro rhwng pobl ifanc a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes ieuenctid (cam gweithredu datganoledig).
  Gweithgareddau Jean Monnet ((cam gweithredu canoledig).
  Chwaraeon.
  Partneriaethau cydweithredol (cam gweithredu canoledig).
  Digwyddiadau chwaraeon Ewropeaidd dielw (cam gweithredu canoledig).

14. Cefnogir rhaglen Erasmus+ gan holl aelod-wladwriaethau'r UE, yn cynnwys y DU. Mae Erasmus+ yn cyfrannu at economi gref arloesol. Mae'n cefnogi allforion addysgol, yn cryfhau cysylltiadau ym meysydd addysg ac ymchwil, ac yn sbarduno mewnfuddsoddi mewn sefydliadau addysgol, busnesau a chyrff anllywodraethol, sy'n darparu cyfleoedd i unigolion ddatblygu. Mae Erasmus+ yn darparu arian sy'n hanfodol i wireddu Declarasiwn Paris Mawrth 2015 ar hybu dinasyddiaeth a gwerthoedd cyffredin rhyddid, goddefgarwch a pheidio â gwahaniaethu drwy addysg. Heb Erasmus+ byddai llawer llai o gyfleoedd i weithio ac astudio dramor, ac i arloesi a chydweithredu a diwygio polisïau ym maes addysg yn yr UE.

15. Mae ymchwil ledled y DU yn awgrymu bod rhanddeiliaid yn ystyried Erasmus+ yn faes synhwyrol ar gyfer ei ariannu gan yr UE ac yn faes y gellir ychwanegu gwerth dilys ato ar lefel Ewropeaidd. Mae'r cyllid yn cael ei ystyried yn arian ychwanegol yn hytrach na'i fod yn disodli arian a fyddai'n cael ei ddarparu'n genedlaethol. Er bod rhanddeiliaid yn dweud bod gweinyddiaeth y rhaglen yn rhy fiwrocrataidd ar brydiau, maent yn credu bod hyn yn gwella'n araf ac nid ydynt yn gweld unrhyw werth mewn newid y model presennol o ran ariannu a gweinyddu.

16. Sefydlwyd Erasmus+ yn Rheoliad yr UE 1288/2013. Mae erthygl 165 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn datgan bod gan yr Undeb gymhwysedd cynorthwyol ym meysydd addysg, hyfforddiant galwedigaethol, ieuenctid a chwaraeon. Bydd yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer astudio, addysgu a gwirfoddoli'n rhyngwladol yn Ewrop a thu hwnt.

17. Yn ystod 2014 roedd nifer y ceisiadau o Gymru yn isel a chyfradd lwyddo'r ceisiadau hynny yn eithaf isel. Er hynny, roedd y wybodaeth ystadegol ddiweddaraf[1] yn dangos bod nifer y ceisiadau wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd.

18. Er bod nifer y ceisiadau prosiect o Gymru ar gyfer Erasmus+ yn siomedig yn 2015, sef 66 neu 4.1% o holl geisiadau'r DU o'i gymharu â'n rhan o'r boblogaeth sef 4.8%, roedd cyfradd lwyddo'r ceisiadau hynny yn 60.6% a'r uchaf o bedair gwlad y DU.

---

[1] https://www.erasmusplus.org.uk/statistics-0

19. Mae cryn amrywiaeth o fewn y meysydd gydag addysg oedolion yn destun canran fwyaf yr holl geisiadau, sef 10.3%, ac ysgolion yn destun y nifer lleiaf gydag 1.9%.

20. Dim ond 36 o sefydliadau wedi'u lleoli yng Nghymru a gafodd arian ar gyfer eu prosiectau yn sgil yr alwad gyntaf. Dyrannwyd €5,134,269 i Gymru, sy'n 4.7% o'r holl grantiau a ddyfarnwyd, ond mae gwelliannau bach wedi cael eu gwneud.

21. Yn nhermau gwerth y prosiectau a lwyddodd i gael eu hariannu, rydym wedi gwneud yn well. Cawsom tua €6.5 miliwn, neu 5.8% o'r holl gyllid; o'i gymharu â'n canran o 4.8% o boblogaeth y DU. Amrywiodd yr amrediad hwn o ran cyfran y cyllid o uchafbwynt o 9.7% ym maes Ieuenctid i isafswm o 1.3% mewn addysg oedolion. Mae hyn yn awgrymu bod ansawdd a gwerth y prosiectau llwyddiannus o Gymru yn uchel ar y cyfan, er bod y niferoedd yn is mewn rhai meysydd.

22. Dyma enghreifftiau o brosiectau fu'n llwyddiannus yn 2015:-

- Cyngor Dinas Caerdydd - Ysbrydoli Dysgu yn yr Awyr Agored - Gweledigaeth ar gyfer Ysgolion De Cymru - €97,200
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd - Partneriaeth â Brasil, Tsieina, yr Aifft, India, Indonesia, Libanus a Moroco - €252,240
- Prifysgol Abertawe mewn partneriaeth â Tsieina, Seland Newydd ac UDA - €176,120
- Coleg Cambria - Symudedd ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol ar gyfer Dysgwyr VET - €322,810
- Colegau Cymru - Symudedd Staff Addysg Bellach a Dysgwyr Galwedigaethol dros Gymru Gyfan (2 brosiect) - €239,949
- Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru (FAW) - Defnyddio Symudedd i wella Llwyddiant Prentisiaid yng Nghymru - €150,823

23. Maes Addysg Uwch a wnaeth y nifer uchaf o geisiadau llwyddiannus (13) ac Addysg Oedolion oedd â'r nifer isaf o geisiadau llwyddiannus(3). Fodd bynnag, bydd angen i nifer ac ansawdd ceisiadau sefydliadau wedi'u lleoli yng Nghymru barhau i wella.

24. Mae'r British Council, Ecorys a Llywodraeth Cymru'n trefnu cyfres o ddigwyddiadau ledled Cymru yn yr hydref i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael drwy Erasmus+ cyn yr alwad nesaf am geisiadau yn 2016. Bydd y rhain yn amrywio o gynadleddau, i ddigwyddiadau briffio a gweminarau i gefnogi ymgeiswyr a chodi ymwybyddiaeth.

25. Bydd y British Council/Ecorys hefyd yn cynyddu eu gweithgareddau marchnata a chefnogi a byddant yn canolbwyntio ar Gymru ar gyfer y cylch nesaf o alwadau yn nes ymlaen eleni.

26. Er nad yw wedi ei chysylltu'n uniongyrchol ag Erasmus+, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda Phrifysgolion yng Nghymru i ddatblygu rhaglen newydd o'r enw "Cymru Fyd-eang". Nod y rhaglen yw cyhoeddi neges gyson

ynglŷn ag ansawdd ac amrywiaeth cynnig Cymru; cefnogi gweithgareddau rhyngwladol; meithrin cyfraniad y sectorau i economi Cymru drwy ddenu mewnfuddsoddi a thwristiaeth; a hwyluso partneriaethau busnes gyda sectorau busnes allweddol yng Nghymru er mwyn datblygu cysylltiadau rhyngwladol ymhellach. Bydd lansiad Cymru Fyd-eang yn digwydd ar 11 Tachwedd 2015.

**Horizon 2020**

27. Rhaglen Fframwaith yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer ymchwil ac arloesi yw Horizon. Mae'n deillio o gyfuniad o'r rhaglenni Ewrop 2020 ac Undeb Arloesi ac mae'n olynydd i'r 7fed Rhaglen Fframwaith, gan ddarparu cymorth buddsoddi o ran ymchwil ac arloesi.

28. Ewrop2020 yw strategaeth twf yr UE ar gyfer y ddegawd i ddod. Mae wedi'i seilio ar egwyddorion ystwythder, cynaliadwyedd a chynhwysiant wedi'u gosod yng nghyd-destun cyflogaeth, arloesi, addysg, cynhwysiant cymdeithasol a hinsawdd/ynni.

29. Mae Undeb Arloesi yn fenter arall â'r nod o greu amgylchedd sy'n meithrin arloesi er mwyn galluogi pobl i droi syniadau gwych yn gynnyrch a gwasanaethau a chreu twf yn yr economi a swyddi yn eu sgil.

30. Mae hi'n dal yn gynnar braidd o ran y rhaglen i gadarnhau tueddiadau ystadegol, ond mae'n eglur bod Horizon 2020, yn ôl y disgwyl, yn fwy cystadleuol na'i ragflaenydd, Rhaglen Fframwaith 7 (FP7). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gormod yn dymuno cymryd rhan mewn sawl rhan o'r rhaglen, gan gynnwys mentrau newydd fel yr Offeryn BBaCh.

31. Ag ystyried lefel y gystadleuaeth, bu perfformiad sefydliadau o Gymru'n galonogol iawn mewn sawl maes. Mae'r data diweddaraf (o 17 Gorffennaf 2015[2]) yn dangos bod 44 o Gymru wedi eu dewis i gael eu hariannu a'u bod yn cael €17.6 miliwn o gyllid o'r UE rhyngddynt. Mae hyn yn golygu bod sefydliadau yng Nghymru wedi cael 12% o'r cyfanswm a gafwyd yn ystod 7 mlynedd y FP7, a hynny ar ôl galwadau'r flwyddyn gyntaf yn unig.

32. Mae cyfradd lwyddo ceisiadau o Gymru ychydig o dan 14% ar hyn o bryd, sydd yn is na chyfartaledd cyfatebol yr UE o 16%. Mae'r patrwm sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru o ran niferoedd yn ymddangos yn debyg i'r un ar gyfer FP7.

33. Gellir gosod her rhaglen mor gystadleuol yn erbyn ymdrechion yr holl randdeiliaid i adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod blwyddyn gyntaf Horizon 2020. Mae cynnydd amlwg mewn brwdfrydedd ymhlith rhanddeiliaid yng Nghymru o ran gweithio gyda'i gilydd er mwyn cael mynediad at Horizon 2020, sy'n argoeli'n dda ar gyfer mesurau Llywodraeth Cymru i hwyluso'r ffordd i fwy o geisiadau llwyddiannus.

---

[2] https://ec.europa.eu/programmes/horizon2020/en/horizon-2020-statistics

34. Roedd Astudiaeth Gwmpasu CM International ar Horizon 2020[3] yn ystyried y ffordd orau i gefnogi sefydliadau yng Nghymru i gael mynediad at Horizon 2020. Cymeradwyodd yr Astudiaeth y dull y mae Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru wedi'i ddilyn o ran gweithio'n agos â rhaddeiliaid allweddol yng Nghymru, y DU ac Ewrop i gydgysylltu a hwyluso gweithgareddau a fydd yn cynyddu cyfleoedd gyfer sefydliadau yng Nghymru i fanteisio i'r eithaf ar Horizon 2020.

35. Mae'r Uned yn mynd ag argymhellion yr Astudiaeth yn eu blaenau o dan bum prif amcan:

- Adeiladu 'ysgol at ragoriaeth' (gan ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop i feithrin gallu i gael mynediad at Horizon 2020);
- Cynyddu ymgysylltiad a llwyddiant busnesau (cynnig cymorth pwrpasol i fusnesau unigol);
- Datblygu diwylliant a chymuned Horizon 2020 yng Nghymru (gweithgareddau'n cynnwys digwyddiadau a chyfathrebu, gan gynnwys digwyddiad Horizon 2020 blynyddol);
- Cynyddu i'r eithaf effaith cymorth presennol a chymorth sydd ar y gorwel (rhwydwaith arfer da a chysylltiadau eraill, gan gynnwys ym Mrwsel); a
- Cefnogi a datblygu ein harbenigwyr a'n harfarnwyr (sefydlu cymuned ymarfer ar gyfer arbenigwyr ac arfarnwyr Horizon 2020 yng Nghymru).

36. Mae Uned Horizon 2020 yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Adrannau Llywodraeth Cymru, y sector addysg uwch yng Nghymru, Innovate UK ac Enterprise Europe Network, i gydgysylltu a thargedu cefnogaeth i sefydliadau yng Nghymru ac i rannu arfer gorau. Mae'r Uned hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo arbenigedd Cymru ym Mrwsel, drwy gydgysylltu digwyddiadau a thrwy annog cysylltiadau â'r rhwydweithiau cywir.

---

[3] Horizon 2020 Scoping Study, CM International, mis Mai 2014 (http://wefo.wales.gov.uk/publications/publications/monitoringevaluation/programmeevaluations/horizon2020scopingstudy/)